

Afasic Geirf A

Syndrom X Brau

Beth yw syndrom X brau ?

Mae X brau yn gyflwr genetig. Mae'r genyn sy'n achosi X brau ar flaen y cromosom X ac mae'n safle brau – a dyna sut y bathwyd yr enw. Gall dynion a merched fod â X brau a gall y genyn gael ei drosglwyddo trwy sawl cenhedlaeth cyn y bydd y syndrom yn effeithio ar blentyn. Gellir cadarnhau diagnosis gan brawf DNA neu brawf Cromosom ond bydd yn rhaid nodi prawf X brau yn benodol.

Anawsterau dysgu

X brau yw'r achos mwyaf cyffredin o anabledd dysgu etifeddol. Mae'n effeithio ar fechgyn a merched a cheir achosion ym mhob poblogaeth a phob grŵp ethnig. Mae anableddau dysgu'n amrywio o ychydig o oedi addysgol i nam meddyliol difrifol. Bydd gan y bechgyn yr effeithir arnynt bron bob amser anhawster dysgu a all amrywio o anhawster cymedrol i ddiffrifol. Bydd gan hyd at hanner y merched broblemau dysgu a'r rhain yn ddiffrifol weithiau.

Nodweddion ymddygiadol

Bydd y nodweddion ymddygiadol yn cynnwys diffyg canolbwyntio, methu â chanolbwyntio, diffyg rheolaeth dros gymhelliaid a gysylltir yn aml â gorfywiogrwydd. Mae swildod ac encilio o'r gymdeithas yn nodweddion amlwg ymhlith merched sydd â syndrom X brau a all gael anhawster i wneud ffrindiau ac efallai y byddant yn teimlo fel petaent wedi'u dieithrio o'u cyfoedion.

Bydd methu â edrych ym myw llygad rhywun, anhawster i gysylltu â phobl eraill, pryder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn aml yn arwain at dymer ddrwg, ac efallai y byddant hefyd yn mynnu gwneud pethau sy'n gyfarwydd iddynt, symud eu dwylo'n rheolaidd neu cnoi eu dwylo.

Nodweddion corfforol

Gall nodweddion corfforol gynnwys pen eithaf mawr a chlustiau amlwg ond efallai na fydd y rhain yn amlwg mewn plant ifanc. Bydd 20% o bobl sydd â syndrom X brau yn dioddef o epilepsi.

Oedi mewn lleferydd ac iaith

Bydd oedi mewn lleferydd ac iaith bron bob amser yn bresennol ond bydd ei ddiffrifoldeb yn amrywio'n fawr iawn. Efallai y bydd yr unigolyn yn hollol fud neu efallai y bydd yn dioddef o anawsterau cyfathrebu ysgafn a llai amlwg.

Nodwedd patrwm y lleferydd yw siarad yn gyflym (anhrefnu) ac yn gyfnewidiol. Yn gyffredinol bydd i batrwm y lleferydd arddull ffraeth, naratif ddi-dor gydag ailadrodd aml a newid yn y cywair a ddisgrifir fel 'litani'. Mae yna duedd i gadw at un thema mewn sgwrs (gorbarhau â'r pwnc) ac efallai y bydd plant yn ailadrodd

geiriau ac ymadroddion a ddywedir wrthynt (ecolalia) neu ailadrodd geiriau neu ymadroddion y byddant yn eu dweud eu hunain (gorbarhad geiriol). Efallai hefyd y bydd yna duedd i adael brawddegau ar hanner.

Efallai hefyd y bydd gan ferched sydd â syndrom X brau leisiau uchel a'r tuedd i ailadrodd.

Bydd rhai plant sydd â syndrom X brau yn cael anhawster i ynganu geiriau ac mae'n bosibl y bydd hyn yn deillio o'u genau mawr a thafod bwa uchel. Efallai y bydd hypotonia (ffyrfiant isel) sy'n digwydd mewn rhai plant sydd â syndrom X brau yn effeithio ar y cyhyrau yng nghefn eu ceg, eu gwefusau, eu trwyn a'u tafod a all yn ei dro effeithio ar eu gallu i gynhyrchu synau ar lafar.

Mae oedi yn natblygiad lleferydd ac iaith neu drafferthion iaith fel a ddisgrifiwyd uchod yn aml yn awgrymu bod gan blentyn sydd ag anawsterau dysgu syndrom X brau.

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Davies, K (golygydd) (1991), *The Fragile X Syndrome*, Gwasg Prifysgol Rhydychen

Dykens, E, Hodapp, R, a Leckman, J (1994), *Behaviour and Development in Fragile X Syndrome*, Cyhoeddiadau Sage

Schopmeyer, B, a Lowe, F (golygyddion) (1992), *The Fragile X Child*, Singular Publishing

Hagerman, R (1987), *Fragile X Syndrome yn Current Problems in Pediatrics* 17: t.627-674

Turk, J a Zwink, L, Autism and the Fragile X Syndrome yn *Communication, National Autistic Society*, Cyfrol 27 (1) Mawrth 1993, t 10-11

Sefydliadau eraill a all helpu

The Fragile X Society

53 Winchelsea Lane, Hastings, East Sussex, TN34 4LG
Ffôn: 01424 813 147

Ysgrifennwyd gan Lynne Zwink, The Fragile X Society, a Katy Price, therapydd lleferydd ac iaith.